



EISTEDDFOD - Gŵyl Gymru Gogledd America 2026 - Springfield, MA
Cystadleuaeth: LLEFARU CYMRAEG (Welsh Language Recitation)

Ymson Ynghylch Amser (Ar y gaer uwch Ffynnon Gegin Arthur)
– gan R. Williams Parry

Hon ydyw'r afon, ond nid hwn yw'r dŵr
A foddodd Ddafydd Ddu. Mae pont yn awr
Lle'r oedd y rhyd a daflodd yr hen ŵr
I'r ffrydlif fach a thragwyddoldeb mawr.
Yma bu Arthur, yma bu Arthur dro,
Yn torri syched hafddydd ar ryw rawd;
Ac odid na ddaeth Gwydion heibio ar ffo:
Ni ddaw ddim eto, na Gilfaethwy'i frawd.
Rhyfedd yw ffyrdd y Rhod sy'n pennu tymp
I'r ffrwyth a ddisgyn ac i ddyn sydd wêr,
Y chwrligwgan hon a bair na chwymp
Oraens y lleuad a grawnsypiau'r sêr.
Ow! Fory-a-ddilyn-Heddiw-a-ddilyn-Ddoe:
Pa hyd y pery echelydd chwil y sioe?